

Trawsnewid Digidol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mehefin 2026



Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 61(3) (b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i'ch aildefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	7
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	21
Atodiadau	24
1 Ynglŷn â'n gwaith	25
2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	28
3 Ffurflen ymateb rheolwyr	30

Ciplun archwiliad

Yr hyn yr edrychwyd arno

- 1 Gwnaethom edrych ar sut mae ymagwedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) at drawsnewid digidol yn cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys ei ymagwedd at strategaeth ddigidol, arweinyddiaeth a datblygu sgiliau. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r sefydliad yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â seilwaith digidol, seiberwydnwch, a deallusrwydd artiffisial (AI).

Pam mae hyn yn bwysig

- 2 Mae technoleg ddigidol yn alluogwr allweddol i lawer o nodau Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd dulliau digidol a thechnolegau newydd yn rhan bwysig o'r dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal yn y dyfodol.
- 3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn heriol. Mae'n gofyn am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, a hyfforddiant ac ymgysylltiad â staff. Mae angen i systemau gyfathrebu â'i gilydd, a rhaid i sefydliadau reoli'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â seiberwydnwch.
- 4 Mae trawsnewid digidol yn ymwneud â mwy na thechnoleg yn unig, mae'n ymwneud â diwylliant ac arweinyddiaeth hefyd. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol i'w chwarae wrth gymeradwyo strategaeth ddigidol y sefydliad a chymryd perchnogaeth ohoni. Mae angen sicrwydd ar fyrddau bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol hefyd, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r buddiannau a fwriadwyd.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 5 Nid yw strategaeth ddigidol y Bwrdd Iechyd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Nid yw ychwaith wedi'i hariannu llawn na'i halinio â strategaeth gorfforaethol a chynlluniau clinigol. Mae hyn, ynghyd â heriau diweddar yn ymwneud â capasiti uwch arweinwyr digidol, wedi arafu cynnydd. Mae hefyd wedi arwain at ddull adweithiol yn hytrach na dull trawsnewidiol. Mae buddsoddiad refeniw ym maes digidol wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae heriau cyfredol yn awgrymu efallai nad yw'r gwariant hwn yn cynnig digon o werth nac yn cael digon o effaith.
- 6 Mae ystyriaeth dda o risgiau digidol allweddol a sicrwydd yn eu cylch. Fodd bynnag, mae'r seilwaith digidol yn parhau i fod yn wendid mawr. Mae gan y Bwrdd Iechyd ystad ddigidol fawr sy'n heneiddio ac aeddfedrwydd digidol isel. Mae hyn yn cael ei achosi'n rhannol gan gyfalaf cyfyngedig, cyllid byrdymor a chyfyngiadau o ran capasiti. Mae buddsoddiad cyfredol ym maes digidol yn canolbwyntio mwy ar gadw gwasanaethau i redeg na defnyddio digidol i'w trawsnewid.
- 7 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd, fel sefydliad cyfan, farn ynghylch sgiliau digidol ei weithlu. Er bod yna fframwaith hyfforddi digidol, nid oes model hirdymor wedi'i ariannu i adeiladu sgiliau a galluoedd digidol. Mae prinder staffio mewn rolau digidol allweddol a phwysau ar amser staff rheng flaen a hyfforddiant gorfodol arall yn cystadlu ag amser ar gyfer hyfforddiant digidol.
- 8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod angen mynd i'r afael ag allgáu digidol. Mae yna rai enghreifftiau da o ymgysylltu â staff a chleifion ac ymgysylltiad clinigol o ran datblygiadau digidol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro a yw cynhwysiant digidol yn gwella fel mater o drefn.

- 9 Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol ac, yn gyffredinol, mae'n gefnogol i ddull Unwaith i Gymru. Mae'r Bwrdd lechyd wedi llwyddo i weithredu ystod o brosiectau digidol lleol a chenedlaethol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r cynnydd mae'n ei wneud wrth adrodd i bwyllgorau. Mae gan y Bwrdd lechyd rai enghreifftiau da hefyd o nodi'r gwersi a ddysgir o'i brosiectau digidol. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy i asesu a yw'r buddiannau a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni.

Yr hyn a argymhellwyd gennym

- 10 Rydym wedi gwneud 8 argymhelliad i'r Bwrdd lechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Mabwysiadu, alinio a chynllunio ariannol ar gyfer y map ffordd digidol.
- Cryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd a Phwyllgorau o ddigidol.
- Datblygu cynllunio olyniaeth clir ar gyfer uwch rolau digidol.
- Gwella sicrwydd ynghylch risgiau digidol a risgiau seiber.
- Sefydlu dull gweithredu clir ar gyfer deallusrwydd artiffisial.
- Datblygu parodrwydd y gweithlu ar gyfer trawsnewid digidol.
- Sicrhau bod effeithiau cynhwysiant digidol yn cael eu deall.
- Datblygu gwelededd y Bwrdd wrth werthuso prosiectau digidol.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

Mae cyllideb refeniw digidol y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'n sylweddol o £21.2 miliwn yn 2021–22 i £38.1 miliwn yn 2025–26.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd ar EMRAM HIMSS Lefel 1, ac INFRAM HIMSS Lefel 2. Mae hyn yn dangos bod aeddfedrwydd digidol yn eithriadol o isel. Mae'n golygu bod dibyniaeth barhaus ar brosesau papur a systemau tameidiog.

Rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol yn 2023 ynghylch trefniadau seiberddiogelwch y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, yn ôl asesiad mwy diweddar o'r Uned Seiberwydnwch, mae yna gamau heb eu gweithredu eto y mae angen eu cwblhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu dros 400 o systemau digidol ar draws ei ystad, gan greu cymhlethdod a heriau o ran integreiddio.

Cwblhaodd 425 o aelodau o staff hunanasesiad Fframwaith Galluogrwydd Digidol AaGIC. Dyma'r ymgysylltiad uchaf yng Nghymru ond dim ond cyfran fach o'r gweithlu ydyw o hyd.

Ein canfyddiadau

Strategaeth, cynllunio ac arweinyddiaeth

Nid yw dull strategol digidol y Bwrdd Iechyd wedi aeddfedu

Cynlluniau a strategaeth digidol

- 11 Nod y Bwrdd Iechyd yw defnyddio digidol, data a thechnoleg i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau. Mae ei Fap Ffordd Digidol a Data drafft yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal a alluogir gan dechnolegau digidol ac mae'n cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y dull 'Unwaith i Gymru'. Datblygodd y Bwrdd Iechyd y map ffordd gyda mewnbwn gan glinigwyr, staff a chleifion. Mae hefyd yn cydnabod bod yna aeddfedrwydd digidol isel ac mae'n blaenoriaethu sefydlogi'r seilwaith craidd ochr yn ochr â thrawsnewid yn y tymor hwy.
- 12 Nid yw amcanion digidol y Bwrdd Iechyd wedi'u cydgysylltu'n llwyr â'i strategaethau hirdymor cyffredinol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori amcanion digidol byrdymor yn IMTP 2025–28 ac mae'n eu monitro trwy weithgareddau rheoli perfformiad arferol. Fodd bynnag, nid yw'r Map Ffordd drafft wedi'i alinio'n llwyr â chynlluniau clinigol na strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn lleihau sicrwydd y Bwrdd y bydd blaenoriaethau, dibyniaethau ac adnoddau yn cyflawni'r uchelgais ddigidol yn y tymor hwy.
- 13 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi troi ei uchelgais ddigidol yn gynllun cyflawni strwythuredig sydd wedi'i gostio'n llawn. Er bod y Map Ffordd Digidol a Data yn disgrifio themâu a chyfnodau, nid yw'n nodi gofynion tymor canolig i hirdymor o ran cyfalaf, refeniw a'r gweithlu. Mae hyn yn bryder oherwydd, yn ôl y Bwrdd Iechyd, cyfyngiadau o ran adnoddau oedd y rheswm dros beidio â gallu cyflawni rhannau o'i Strategaeth Ddigidol flaenorol.

Perchnogaeth y Bwrdd o drawsnewid digidol

- 14 Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi cymeradwyo'r map ffordd digidol yn ffurfiol. Heb y gymeradwyaeth honno, mae risg y bydd mentrau yn adweithiol ac yn ymateb i bwysau byrdymor yn hytrach na chyfeiriad strategol a rennir. Nid yw'r map ffordd yn gweithredu fel y pwynt cyfeirio diffiniol ar gyfer blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd.
- 15 Nid yw'r Bwrdd yn deall galluogrwydd digidol yr Aelodau eto, er ei fod yn bwriadu adolygu hyn yn ystod y flwyddyn nesaf. Hyd nes y bydd yn cwblhau'r asesiad hwnnw, ni all fod yn hyderus bod ganddo'r gallu i herio a goruchwyllo trawsnewid digidol yn effeithiol. Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd yn canolbwyntio ar heriau allweddol. Mae hyn yn cynnwys sesiwn ar seiberddiogelwch yn 2024-25 a sesiynau i gefnogi datblygiad strategaethau a'r IMTP.
- 16 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i gymryd rhan yn Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Digidol ac Aelodau Annibynnol Digidol Cymru Gyfan. Mae'r cyfranogiad hwn yn galluogi sefydliadau i rannu dysgu ac arfer da, ac mae'n sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn parhau i fod yn rhan o drafodaethau cenedlaethol sy'n llunio ac yn cefnogi ei drawsnewid digidol.

Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

- 17 Nid yw rolau a chyfrifoldebau digidol ar lefel weithredol yn gwbl effeithiol eto. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu sawl grŵp i oruchwyllo gwaith digidol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda chefnogaeth timau technegol, clinigol a chyflawni. Mae'r grwpiau hyn yn rhannu cyfrifoldeb am gynllunio a rheoli gweithgarwch digidol. Aeth y Bwrdd lechyd ati i adolygu'r model gweithredu DDaT (Digidol, Data a Thechnoleg) yn 2023-24. Fodd bynnag, nid yw rolau, strwythurau ac atebolrwydd wedi'u hymwreiddio'n llawn eto.

- 18 Y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth sy'n arwain ar faterion digidol. Mae'r swydd yn cael ei chefnogi gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth Digidol ac arweinwyr digidol clinigol. Fodd bynnag, mae pwysau o ran adnoddau yn yr uwch dîm digidol wedi arafu cynnydd hefyd. Mae salwch hirdymor ac ymadawiadau eraill a gynlluniwyd yn gwaethygu'r pwysau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau nad yw'r materion capasiti hyn yn cyfyngu ar gyflawni digidol.
- 19 Mae llywodraethu a goruchwyllo yn canolbwyntio'n bennaf ar risgiau digidol yn hytrach na chanlyniadau rhaglenni digidol. Nid yw adroddiadau'r Bwrdd yn dangos yn glir sut mae gwaith digidol yn helpu i gyflawni ei nodau ehangach. Mae goruchwyliaeth y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau wedi bod yn gyfyngedig yn ddiweddar. Mae'n canolbwyntio ar reoli risg yn hytrach nag ar arwain a herio cynnydd digidol.

Nodi a rheoli risgiau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau digidol sy'n ei wynebu. Fodd bynnag, nid yw wedi cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i reoli'r rhain

Risgiau digidol strategol

20 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y prif risgiau digidol strategol sy'n ei wynebu. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi risgiau seiber a risgiau o ran trawsnewid digidol. Mae rhai yn cael eu hachosi gan systemau cymhleth sydd wedi'u hetifeddu. Mae hyn yn cynyddu'r siawns y gallai methiannau digidol effeithio ar ddiogelwch cleifion, parhad gwasanaethau a moderneiddio gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn trafod y risgiau digidol, er bod llawer yn parhau oherwydd bod y camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw yn dibynnu ar fuddsoddiad ychwanegol (**paragraffau 37-41**).

Risgiau seilwaith digidol

21 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi camau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau sylweddol i'r seilwaith. Mae'r Rhaglen Gwasanaethau Hanfodol yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith craidd i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gynnal a chadw yn hytrach na thrawsnewid ac mae'n cael ei danariannu (**paragraff 40**). Nododd y Bwrdd Iechyd hefyd fuddsoddiadau ychwanegol yn y seilwaith fel rhan o'i achos busnes Cofnodion Iechyd Electronig. Fodd bynnag, ni fwriwyd ymlaen â hyn oherwydd uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd Electronig canolog (**paragraff 40**). Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r risgiau hyn, ond oni bai ei fod yn dyrannu digon o adnoddau i gau'r bylchau, bydd risgiau'n parhau i fod yn uchel.

22 Mae adolygiadau annibynnol yn dangos bod aeddfedrwydd digidol yn isel iawn. Mae asesiadau allanol yn nodi bod aeddfedrwydd seilwaith digidol y Bwrdd Iechyd yn isel o dan EMRMA ac INFRAM HIMSS¹. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddibynnu ar systemau papur ac nad yw ei seilwaith yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal digidol dibynadwy, gwydn a modern.

Seiberwydnwch

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau seiber sy'n ei wynebu, ond nid yw rheolaethau yn gwbl effeithiol. Yn ôl adolygiad diweddar gan yr Uned Seiberwydnwch, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn y Fframwaith Asesu Seiber a nodwyd meysydd i'w gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Hyd nes y bydd yn datrys systemau sy'n heneiddio, seilwaith cymhleth a dibyniaeth ar gyflenwyr, bydd ei amlygiad i risg seiber yn parhau i fod yn uchel.

24 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau clir a ffurfiol i gael sicrwydd ar seiberddiogelwch. Mae swyddogion yn adrodd risgiau seiber yn rheolaidd i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, ac yn y pen draw i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r pwysau ar y gweithlu yn cynyddu bregusrwydd ac mae delio â'r heriau hyn yn gosod gofynion ychwanegol ar y tîm Seiber.

¹ Mae'r termau hyn yn cael eu hegluro yn atodiad 'termau allweddol' yr adroddiad hwn.

25 Nid yw'r defnydd o hyfforddiant seiber gorfodol ar gyfer staff yn ddigonol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Chanolfan Gweithredu Diogelwch Cenedlaethol GIG Cymru Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn cymryd rhan mewn ymarferion gwydnwch. Mae'n rhedeg Rhaglen Ymwybyddiaeth o Seiberddiogelwch. Mae hyn yn cynnwys e-ddysgu gorfodol ac ymarferion gwe-rwydo chwarterol, a gefnogir gan fwletinau staff. Fodd bynnag, dim ond 83% o staff sydd wedi cwblhau'r e-ddysgu, sy'n golygu bod bron i 3,000 o staff nad ydynt wedi'i gwblhau eto. Mae'r tîm seiber hefyd yn rhedeg profion gwe-rwydo mwyfwy soffistigedig. Mae canlyniadau diweddar yn dangos bod lle i wella ymwybyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r risg hon drwy dargedu defnyddwyr risg uchel gyda hyfforddiant ychwanegol.

Deallusrwydd artiffisial

26 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi dull strategol ar gyfer mynd i'r afael â deallusrwydd artiffisial (AI) eto. Mae'n cydnabod bod AI yn alluogwr sy'n dod i'r amlwg ar gyfer diagnosteg, gwneud penderfyniadau ac effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn defnyddio rhywfaint o offer sy'n defnyddio AI. Er enghraifft, mae'n treialu'r defnydd o AI ar gyfer gwneud diagnosis o ganser. Ar y cyfan, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran y gwaith o ddiffinio ei weledigaeth strategol ar gyfer AI.

27 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn nodi'r risgiau AI sy'n ei wynebu yn effeithiol eto. Nid yw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi'n benodol risgiau sy'n benodol i AI. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd y Bwrdd bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli risgiau AI sy'n dod i'r amlwg yn systematig. Hyd nes y bydd yn rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli risg clir ar waith, mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn oedi gweithgarwch arloesi diogel neu'n mabwysiadu AI heb oruchwyliaeth ddigonol.

Sgiliau digidol

Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau digidol; fodd bynnag, nid yw ei ddull gweithredu wedi'i ddatblygu'n dda

Asesu sgiliau digidol

- 28 Mae cynnydd y Bwrdd lechyd wrth ddatblygu sgiliau digidol ei staff wedi bod yn araf. Mae wedi drafftio Strategaeth Hyfforddiant Digidol, ond nid yw wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith eto i'w chyflawni. Mae hefyd wedi datblygu Academi Ddigidol, ond mae'r cynnydd wrth gyflawni amcanion yr academi wedi bod yn llawer arafach na'r disgwyl. O ganlyniad, does gan y Bwrdd lechyd ddim model cyflawni sgiliau digidol hirdymor o hyd. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar fentrau byrdymor a hyfforddiant lleol yn hytrach na dull sefydliadol cydgysylltiedig.
- 29 Nid oes gan y Bwrdd lechyd ddarlun cyflawn o sgiliau digidol staff. Mae'n cydnabod bod angen y mewnwleidiad hwn arno a chafodd asesiad penodol o sgiliau digidol ei gynnwys yn rhan o'i strategaeth hyfforddiant digidol ddrafft. Fodd bynnag, nid yw staff ar draws y sefydliad wedi defnyddio nac wedi mabwysiadu'r asesiad yn eang.
- 30 Yn ogystal, dim ond nifer bach o staff sydd wedi defnyddio'r Fframwaith Galluogrwydd Digidol. Offeryn allanol yw'r Fframwaith hwn ac mae'n wahanol i asesiad mewnol y Bwrdd lechyd ei hun. Fe'i defnyddir i fesur galluogrwydd TG sylfaenol staff yn hytrach na sgiliau digidol ehangach i gefnogi trawsnewid digidol. Mae mwy o unigolion yn y Bwrdd lechyd wedi manteisio ar y Fframwaith nag mewn byrddau ieuchyd eraill, ond dim ond 425 o'r 21,600 o staff sydd wedi'i gwblhau. Mae hyn yn golygu mai sicrwydd cyfyngedig sydd gan y Bwrdd ynghylch parodrwydd y gweithlu ar gyfer mentrau digidol presennol a mentrau digidol yn y dyfodol.

Datblygu sgiliau a gallu digidol

31 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau wrth recriwtio a chadw arbenigwyr digidol. Mae hyn yn cynnwys sgiliau seiber ac AI. Mae'r farchnad fasnachol gystadleuol yn dwysáu'r pwysau hwnnw. Er bod y Bwrdd Iechyd yn deall y risgiau hyn, gallai effeithio ar ddarpariaeth ddigidol oni bai ei fod yn mynd i'r afael â nhw.

Cydweithio a chyfranogi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i systemau digidol a arweinir gan ddefnyddwyr, ond nid yw'n gwybod a yw ei weithredoedd yn cael yr effaith angenrheidiol

Lleihau allgáu digidol

32 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cynhwysiant digidol i atal mynediad anghyfartal at wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi fframwaith clir ar waith ar draws y sefydliad eto. Mae yna rai enghreifftiau da lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ystyried cynhwysiant digidol wrth ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, aeth y prosiect Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ati i ystyried hygyrchedd, gwahanol ffyrdd o gael mynediad at wasanaethau, ac anghenion defnyddwyr.

33 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro a yw cynhwysiant digidol yn gwella fel mater o drefn. O ganlyniad, ni all fod yn sicr a yw ei systemau digidol yn helpu neu'n rhwystro mynediad i rai grwpiau o'r cyhoedd neu staff, yn enwedig pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

34 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen ennyn diddordeb staff a phartneriaid mewn trawsnewid digidol. Ymgysylltodd â staff clinigol, gweithredol a digidol yn effeithiol wrth ddatblygu'r Map Ffordd Digidol a Data. Mae hyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn deall bod yn rhaid i strategaeth ddigidol ymateb i anghenion a safbwyntiau ehangach na rhai timau digidol arbenigol.

- 35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n dda gydag eraill er mwyn helpu i bennu ei flaenoriaethau digidol. Mae timau clinigol a gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r broses o lunio prosiectau digidol allweddol, yn enwedig mewn perthynas â systemau cenedlaethol a phrosiectau sy'n benodol i wasanaeth. Mae grwpiau fel yr Awdurdod Dylunio Clinigol yn helpu i sicrhau bod gwaith digidol yn adlewyrchu mewnbwn clinigol ac yn diwallu anghenion gwasanaethau.
- 36 Er bod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'i staff, nid yw ei drefniadau yn arwain at ddefnydd cyson o systemau digidol eto ar draws y sefydliad. Nododd adolygiad diweddar INFRAM fod y Bwrdd Iechyd ar y lefel isaf o ran "mabwysiadu". Mae hyn yn golygu nad yw staff yn defnyddio systemau digidol mewn ffordd gyson nac effeithiol eto.

Defnyddio datblygiadau digidol i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau

Wrth weithredu prosiectau digidol, mae risgiau i gyflawni a lefelau cyllid yn cyfyngu ar ei uchelgeisiau trawsnewid digidol

Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu buddsoddiad mewn trawsnewid digidol, ond bydd angen llawer mwy arno i gyflawni ei uchelgeisiau. Mae **Arddangosion 1 a 2** yn dangos bod gwariant refeniw digidol wedi cynyddu'n sydyn dros bum mlynedd. Fodd bynnag, ni fwriedir iddo gynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd nesaf. Mae rhywfaint o'r cynnydd hwn yn deillio o gyllid untro a ddyrannwyd trwy broses blaenoriaethu ariannol fewnol y Bwrdd Iechyd.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio llawer o'r gwariant i gynnal gwasanaethau cyfredol a darparu rhaglenni digidol cenedlaethol, yn hytrach nag i gefnogi trawsnewid digidol ehangach. Er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid, mae'r heriau presennol yn awgrymu efallai nad yw'r gwariant hwn yn darparu digon o werth nac yn cael digon o effaith. Heb gynllun buddsoddi hirdymor, ni all y Bwrdd farnu fforddiadwyedd, gwerth am arian, na'r risg i gyflawni.

Arddangosyn 1: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (2021–22 i 2025–26)

Blwyddyn Ariannol	Cyfalaf (£m)	Refeniw (£m)
2021-22	3.1	21.2
2022-23	1.3	27
2023-24	2.3	33
2024-25	3.6*	36.5
2025-26	4.1	39.3

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

Noder: *Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, derbyniodd y Bwrdd Iechyd gyllid grant cyfalaf ychwanegol o £4 miliwn hefyd

Arddangosyn 2: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol arfaethedig mewn digidol 2026–27 i 2028-29

Blwyddyn Ariannol	Cyfalaf (£m)	Refeniw (£m)
2026-27	2.8	42
2027-28	2.6	42
2028-29	2.2	42

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

39 Nid oes digon o adnoddau cyfalaf i gyflawni uchelgeisiau trawsnewid digidol y Bwrdd Iechyd. Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun buddsoddi digidol wedi'i ariannu ar gyfer ei strategaeth ddigidol, mae wedi ymgymryd â gwaith i nodi agweddau ar ei ofynion ar gyfer cyllid cyfalaf digidol.

40 Mae hyn yn cynnwys ei Raglen Gwasanaethau Hanfodol. Mae gan y rhaglen hon ofyniad cyllid cyfalaf blynyddol o £10 miliwn, sy'n gadael bwlch o £7.6 miliwn mewn cyllid cyfalaf. Nododd ei achos busnes amlinellol ar gyfer Cofnod Iechyd Electronig ofyniad cyllid cyfalaf pellach o £92 miliwn. Y cyllid cyfalaf blynyddol cyfredol ar gyfer digidol yw £2.8 miliwn, sy'n gadael diffyg sylweddol (**Arddangosyn 2**).

41 Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf yn y dyfodol yn gostwng dros y tair blynedd nesaf. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio grantiau byrdymor Llywodraeth Cymru i helpu, nid yw hyn yn gynaliadwy. Os na fydd y bwlch mewn cyllid cyfalaf yn cael ei gau, bydd risgiau digidol yn parhau i fod yn uchel a bydd y cynnydd o ran trawsnewid digidol yn gyfyngedig.

Prosiectau digidol lleol a chenedlaethol

- 42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ystod o brosiectau digidol lleol a rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys systemau newydd mewn meysydd clinigol a gweithredol, megis System Newydd ar gyfer Gwasanaethau Therapiau a systemau digidol newydd ar Ward 6 yn Ysbyty Glan Clwyd. Datblygwyd y prosiectau hyn yn aml i ymateb i'r pwysau ar wasanaethau, anghenion lleol a systemau sy'n heneiddio.
- 43 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyflwyno rhaglenni cenedlaethol mawr. Yn eu plith mae Prosiect System Gwybodeg Radioleg, y Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl, Presgripsiynu Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau, a System Rheoli Gwybodaeth Labordai.
- 44 Mae adroddiadau diweddar i'r Pwyllgor PPHP yn tynnu sylw at risgiau difrifol i'r broses gyflawni, megis problemau profi ac oedi a achosir gan newidiadau i'r cwmpas. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau diweddar i'r Bwrdd yn disgrifio'n glir faint na natur y materion hyn. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y Bwrdd yn deall y risgiau mewn pryd i gymryd camau i ddiogelu'r broses gyflawni a'r buddiannau a ddisgwylir.
- 45 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru, a'r Rhwydweithiau Clinigol o fewn Perfformiad a Gwellu'r GIG. Mae'n cefnogi systemau cenedlaethol a'r dull Unwaith i Gymru, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid i alinio cynlluniau, gwella cysylltiadau rhwng systemau ac osgoi dyblygu. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn anodd rhoi'r systemau hyn ar waith. Mae hen systemau, parodwydd cyfyngedig ymhlith staff a bylchau mewn seilwaith yn arafu cynnydd ac yn lleihau'r buddiannau y gall y Bwrdd Iechyd eu cael o systemau digidol cenedlaethol.

Gwerthuso atebion digidol

- 46 Nid yw dull y Bwrdd lechyd o werthuso atebion digidol wedi aeddfedu eto. Mae'n cydnabod bod angen cytuno ar fuddiannau a nodi'r hyn a ddysgir, ac mae ganddo Fframwaith Rheoli Buddiannau. Mae llawer o brosiectau digidol yn defnyddio PRINCE2, lle mae angen rheoli buddiannau a chynnal adolygiad ar ôl i brosiect ddod i ben. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cwblhau rhywfaint o waith gwerthuso ar ôl i brosiectau ddod i ben ar gyfer ei brosiectau digidol. Mae hyn yn cynnwys prosiect y system radioleg genedlaethol. Fodd bynnag, mae oedi yn golygu nad yw'r rhan fwyaf o'r buddiannau wedi'u cyflawni eto ac nid oes unrhyw effaith na buddiannau wedi'u hadrodd eto. Mae'n bwysig i'r Bwrdd lechyd ailedrych ar y buddiannau disgwylidig er mwyn cadarnhau a yw prosiectau wedi bod yn llwyddiannus.
- 47 Nid yw adroddiadau pwyllgorau a'r Bwrdd yn nodi'r buddiannau sydd wedi'u cyflawni na gwerth am arian fel mater o drefn. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Bwrdd nodi a oedd buddsoddiadau digidol yn werth chweil neu ddysgu gwersi i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol.

Argymhellion

48 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith.

Argymhellion

- A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd adnewyddu a chymeradwyo ei Fap Ffordd Digidol a Data yn ffurfiol er mwyn sicrhau ei fod:
- yn cyd-fynd â Strategaeth Deng Mlynedd y Bwrdd Iechyd a gwaith esblygol i gynllunio gwasanaethau clinigol; (**paragraff 12**)
 - yn cael ei gefnogi gan gynllun digidol clir wedi'i ariannu a'i gymeradwyo, sy'n nodi blaenoriaethau digidol, buddiannau, prosiectau allweddol a risgiau. (**paragraffau 39 a 47**)

- A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo gynllun olyniaeth clir ar gyfer ei Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT a bod gan y tîm hwn ddigon o gapasiti i gyflawni ei uchelgeisiau digidol. (**paragraff 18**)

- A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd a phwyllgorau o drawsnewid digidol trwy wneud y canlynol:
- A3.1 cytuno ar set gyson o gerrig milltir clir, mesurau cynnydd, a diweddariadau ar y risgiau sydd ynghlwm wrth raglenni;
 - A3.2 sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a phwyllgorau (**paragraff 19**)

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei sicrwydd seiberddiogelwch trwy fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn argymhellion CAF erbyn mis Medi 2026. (**paragraff 23**)

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth AI glir a sicrhau ei bod yn cael ei ategu gan drefniadau llywodraethu a rheoli risg clir. (**paragraffau 26 a 27**)

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r ffordd y mae'n ymdrin â sgiliau digidol trwy wneud y canlynol:

A6.1 datblygu dealltwriaeth glir o fylchau allweddol yn sgiliau digidol ei weithlu;

A6.2 datblygu dull strwythuredig wedi'i ariannu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau digidol ar draws y sefydliad. (**paragraffau 28 a 29**)

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau sicrwydd ynghylch mabwysiadu digidol a chynhwysiant digidol. Wrth wneud hynny, dylai fynd ati fel mater o drefn i werthuso ac adrodd effeithiau a lefelau mabwysiadu systemau digidol yn ogystal â'r ffactorau sy'n rhwystr i'w defnyddio. (**paragraffau 32 a 33**)

A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd:

A8.1 ymwreiddio ei ddull o werthuso buddsoddiadau, rhaglenni a prosiectau digidol;

A8.2 adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau fel mater o drefn ynghylch a yw buddsoddiadau digidol yn sicrhau gwelliannau, gwerth am arian a gwell

defnydd o adnoddau. (**paragraffau 46 a 47**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw darganfod a yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi moderneiddio ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys ei ymagwedd tuag at strategaeth, arweinyddiaeth a datblygu sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a'r ffordd y mae risgiau sy'n ymwneud â seilwaith digidol, seiberwydnwch a deallusrwydd artifisial yn cael eu rheoli.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A yw ymagwedd y Bwrdd tuag at drawsnewid digidol wedi'i harwain yn dda ac a oes digon o adnoddau ar ei chyfer?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn datblygu sgiliau, capasiti a galluogrwydd digidol ei weithlu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun clir ar gyfer rheoli ei drefniadau seiberwydnwch a'i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i gefnogi ei uchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i gyflawni ei uchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau risgiau sy'n ymwneud ag allgáu digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio technoleg ddigidol newydd ac atebion data yn weithredol i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?

Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu llunio gan y canlynol:

- Mewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol GIG Cymru gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Adroddiadau adolygu Trawsnewid Digidol perthnasol y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin.
- Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol GIG Lloegr: Papur polisi *A plan for digital health and social care*.
- Cyfarwyddiaeth Trawsnewid GIG Lloegr: *What good looks like framework*.

Dulliau

Gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Cwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut mae'r sefydliad yn ymgymryd â thrawsnewid digidol.
- Rhoi ffeithiau a ffigurau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol staff, seiberwydnwch, a sut mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Gwnaethom ddarllen ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Map Ffordd Digidol a'r Cynllun Blynyddol.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Gwnaethom gyfwrdd â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr Dros Dro - Digidol, Data a Thechnoleg
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Data, Cudd-wybodaeth a Mewnwelediad

- Cadeirydd Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (Pwyllgor)
- Prif Swyddog Technoleg

Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd.

2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Cofrestr Risg Gorfforaethol	Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi'r risgiau sylweddol i'r sefydliad (naill ai'r rhai sydd â sgorau uchel neu sy'n effeithio ar y sefydliad gyfan) a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w rheoli.
Presgripsiynu electronig a gweinyddu meddyginiaethau	System yn ei ysbytai sydd wedi'i chynllunio i wella diogelwch cleifion drwy well dogfennaeth, llifoedd gwaith symlach, a mynediad mwy effeithlon at gofnodion meddyginiaeth fel rhan o Raglen Meddyginiaethau Digidol GIG Cymru.
EMRMA	Asesiad o Aeddfedrwydd Cofnodion Rheoli Electronig – mae'n darparu asesiad o ble mae Cyrff Iechyd yn sefyll ar ddefnydd llawn o'ch cofnodion iechyd cleifion.
Rhaglen Gwasanaethau Hanfodol	Y Rhaglen Gwasanaethau Hanfodol yw rhaglen graidd y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynnal diogelwch, sefydlogrwydd a gweithredadwyedd ei ystad TG a digidol bresennol.
Fframwaith Galluogrwydd Digidol AaGIC	Model cenedlaethol sy'n amlinellu'r sgiliau digidol, yr ymddygiad a'r hyder sydd eu hangen ar staff iechyd a gofal, wedi'i drefnu'n chwe maes galluogrwydd gydag offeryn hunanasesu ar gyfer datblygu.
HIMMS	Cymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd – sefydliad byd-eang, nid-er-elw sy'n ymroddedig i wella ansawdd iechyd, diogelwch, a chost-effeithiolrwydd trwy'r defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth a systemau rheoli.

Term	Disgrifiad
INFRAM	Model aeddfedrwydd a mabwysiadu seilwaith, wedi'i gynllunio i asesu'r gofynion ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.
Cynllun Tymor Canolig Integredig	Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun tair blynedd sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i fantoli'r gyllideb. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.
Unwaith i Gymru	Dull cenedlaethol yn GIG Cymru lle mae system, proses neu safon ddigidol yn cael ei dylunio, ei chaffael a'i gweithredu unwaith ar lefel genedlaethol, yn hytrach na bod pob Bwrdd lechyd yn creu ei fersiwn ei hun.
PRINCE2	Mae PRINCE2 yn fethodoleg rheoli prosiect strwythuredig a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n rhannu prosiectau yn gamau rheoladwy sy'n canolbwyntio ar reolaeth, eglurder ac alinio ag amcanion strategol.
Cofrestr Risg Strategol	Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny.

3 Ffurflen ymateb rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	<p>Dylai'r Bwrdd lechyd adnewyddu a chymeradwyo ei Fap Ffordd Digidol a Data yn ffurfiol er mwyn sicrhau ei fod:</p> <ul style="list-style-type: none">yn cyd-fynd â Strategaeth Deng Mlynedd y Bwrdd lechyd a gwaith esblygol i gynllunio gwasanaethau clinigol; (paragraff 12)yn cael ei gefnogi gan gynllun digidol clir wedi'i ariannu a'i gymeradwyo, sy'n nodi blaenoriaethau digidol, buddiannau, prosiectau allweddol a risgiau. (paragraffau 39 a 47)	<p>Bydd Map Ffordd Digidol a Data ar ei newydd wedd yn cael ei ddatblygu a'i alinio â Strategaeth Deng Mlynedd a chynlluniau gwasanaethau clinigol y Bwrdd lechyd. Bydd cynllun cyflawni ategol wedi'i ariannu yn cael ei gynhyrchu a fydd yn nodi blaenoriaethau, buddiannau, rhaglenni allweddol, dibyniaethau a risgiau i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.</p>	Rhagfyr 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Cofnodion Cleifion ac Integreiddio Digidol / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydymffurfiaeth a Rheolwr Busnes
A2	<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ganddo gynllun olyniaeth clir ar gyfer ei Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT a bod gan y tîm hwn ddigon o gapasiti i</p>	<p>Bydd adolygiad olyniaeth a chapasiti'r gweithlu o strwythur uwch arweinyddiaeth DDaT yn cael ei gwblhau i nodi bylchau</p>	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Cofnodion Cleifion ac Integreiddio Digidol /

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	gyflawni ei uchelgeisiau digidol. (paragraff 18)	mewn gwydnwch a gofynion o ran adnoddau yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyflawni.		Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydymffurfiaeth a Rheolwr Busnes
A3.1	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd a phwyllgorau o drawsnewid digidol trwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • cytuno ar set gyson o gerrig milltir clir, mesurau cynnydd, a diweddariadau ar y risgiau sydd ynghlwm wrth raglenni. (paragraff 19) 	Bydd diweddariadau ar brosiectau a rhaglenni trawsnewid digidol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT, y Pwyllgor Gweithredol ar sail chwarterol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, lechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ddwywaith y flwyddyn, a byddant yn cynnwys cynnydd yn erbyn cerrig milltir, cyflawniadau a risgiau cysylltiedig.	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyflawni Digidol
A3.2	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd a phwyllgorau o drawsnewid digidol trwy wneud y canlynol:	Bydd diweddariadau ar brosiectau a rhaglenni trawsnewid digidol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT, y	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyflawni Digidol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	<ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a phwyllgorau. (paragraff 19) 	<p>Pwyllgor Gweithredol ar sail chwarterol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ddwywaith y flwyddyn, a byddant yn cynnwys cynnydd yn erbyn cerrig milltir, cyflawniadau a risgiau cysylltiedig.</p>		
A4	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei sicrwydd seiberddiogelwch trwy fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn argymhellion CAF erbyn mis Medi 2026. (paragraff 23)</p>	<p>Bydd cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion a nodwyd mewn perthynas â'r Fframwaith Asesu Seiber (CAF), wedi'i gefnogi gan weithgarwch rhaglen seiber parhaus gan gynnwys cyflwyno map ffordd seiber, dadansoddiad o fylchau CAF, asesiad risg o systemau critigol, a galluoedd monitro gwell. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd trwy drefniadau llywodraethu a sicrwydd seiber sefydledig.</p>	Medi 2026	Prif Swyddog Technoleg

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A5	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth AI glir a sicrhau ei bod yn cael ei hategu gan drefniadau llywodraethu a rheoli risg clir. (paragraffau 26 a 27)</p>	<p>Bydd fframwaith llywodraethu a strategaeth AI sefydliadol yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o fabwysiadu technolegau AI yn ddiogel, yn foeseogol ac yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau rheoli risg a sicrwydd.</p>	Mawrth 2027	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cydymffurfiaeth a Rheolwr Busnes / CCIO
A6.1	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r ffordd y mae'n ymdrin â sgiliau digidol trwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu dealltwriaeth glir o fylchau allweddol yn sgiliau digidol ei weithlu; (paragraffau 28 a 29) 	<p>Bydd Asesiad o Sgiliau Digidol yn cael ei gynnal i sefydlu llinell sylfaen glir o fylchau yng ngallu'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol ar draws gwasanaethau. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyflawni drwy'r rhaglen Academi Ddigidol ac yn cael ei alinio â blaenoriaethau sefydliadol a bylchau yng ngallu'r gweithlu yn y dyfodol ar draws gwasanaethau a grwpiau staff</p>	Rhagfyr 2026	Prif Swyddog Technoleg

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A6.2	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r ffordd y mae'n ymdrin â sgiliau digidol trwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu dull strwythuredig wedi'i ariannu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau digidol ar draws y sefydliad. (paragraffau 28 a 29) 	<p>Bydd rhaglen Academi Ddigidol strwythuredig yn cael ei datblygu a'i chyflwyno, gan gynnwys cydgrynhoi adnoddau hyfforddi mewn un System Rheoli Dysgu a hyfforddiant wedi'i dargedu sy'n gyson â rhaglenni blaenoriaeth. Bydd hyn yn darparu dull cynaliadwy y gellir ei ehangu o fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau digidol.</p>	Mawrth 2027	Prif Swyddog Technoleg
A7	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau sicrwydd ynghylch mabwysiadu digidol a chynhwysiant digidol. Wrth wneud hynny, dylai fynd ati fel mater o drefn i werthuso ac adrodd effeithiau a lefelau mabwysiadu systemau digidol yn ogystal â'r ffactorau sy'n rhwystr i'w defnyddio. (paragraffau 32 a 33)</p>	<p>Bydd trefniadau'n cael eu cryfhau i werthuso'r ffordd y caiff systemau digidol eu mabwysiadu a phrofiad y defnyddiwr. Bydd hyn yn cynnwys monitro defnydd, nodi rhwystrau i fabwysiadu ac ymwreiddio camau lliniarol o fewn cynlluniau.</p>	Rhagfyr 2026	Prif Swyddog Technoleg

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A8.1	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ymwreiddio ei ddull o werthuso buddsoddiadau, rhaglenni a prosiectau digidol; (paragraffau 46 a 47). 	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo gryfhau'r ffordd y mae'n cydnabod y buddiannau sy'n deillio o raglenni a phrosiectau digidol (gan gynnwys arfarnu gwerth ac effaith).</p> <p>Mae wedi buddsoddi mewn arweinydd Buddiannau Digidol ac wedi datblygu Fframwaith Rheoli Buddiannau F3 18/11/2025 sy'n cynnwys dull gwerth ac arfarnu gan fod llawer o systemau digidol yn cymryd sawl blwyddyn i'w rhoi ar waith, ac mae angen cyfnod o ymsefydlu cyn i fuddiannau gael eu gwireddu.</p> <p>Mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu hanfon at Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT, y Pwyllgor Gweithredol bob chwarter ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau</p>	Mawrth 2027	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyflawni Digidol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
		ddwywaith y flwyddyn, a bydd yn dechrau adrodd allbwn o'r fframwaith buddiannau fel rhan o'r adroddiadau rheolaidd.		
A8.2	<p>Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau fel mater o drefn ynghylch a yw buddsoddiadau digidol yn sicrhau gwelliannau, gwerth am arian a gwell defnydd o adnoddau. (paragraffau 46 a 47). 	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo gryfhau'r ffordd y mae'n cydnabod y buddiannau sy'n deillio o raglenni a phrosiectau digidol (gan gynnwys arfarnu gwerth ac effaith).</p> <p>Mae wedi buddsoddi mewn arweinydd Buddiannau Digidol ac wedi datblygu Fframwaith Rheoli Buddiannau F3 18/11/2025 sy'n cynnwys dull gwerth ac arfarnu gan fod llawer o systemau digidol yn cymryd sawl blwyddyn i'w rhoi ar waith, ac mae angen cyfnod o ymsefydlu cyn i fuddiannau gael eu gwireddu.</p>	Mawrth 2027	Prif Swyddog Technoleg / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyflawni Digidol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
		<p>Mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu hanfon at Uwch Dîm Arweinyddiaeth DDaT, y Pwyllgor Gweithredol bob chwarter ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ddwywaith y flwyddyn, a bydd yn dechrau adrodd allbwn o'r fframwaith buddiannau fel rhan o'r adroddiadau rheolaidd.</p>		

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: <https://www.audit.wales/cy>

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.